GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

SWYDD DISGRIFIAD

Swyddog Hyfforddiant Tim Symud Ymlaen

GYFRIFOL I: **Arweinydd Symud Ymlaen**
LLEOLIAD: **Gwynedd**
GORUCHWYLIAETH: **Arweinydd Symud Ymlaen**
CYFLOG: **Pwynt 17 – 22 £17,506 - £20,411**
ORIAU: **37 Awr**
CONTRACT: **Tachwedd 30ain 2018**

Pwrpas y Swydd

Mae GISDA yn darparu hyfforddiant i amrediad eang o gwsmeriaid gan gynnwys pobl ifanc sydd yn derbyn gwasanaeth gan GISDA ac hefyd disgyblion ar draws ysgolion Gwynedd a Môn. Rydym yn arbenigo mewn darparu addysg amgen i blant a phobl ifanc ac yn awyddus i gynnig rhagor o gyfleon i ragor o bobl ifanc. Sefydlwyd Tim Symud Ymlaen i fynd i'r afael gyda materion addysg, hyfforddiant, gwirfoddoli a chyfleon cyflogaeth.

Un o'r rhaglenni mae Tim Symud ymlaen yn ei ddarparu yw darparu hyfforddiant, cyfleon a sgiliau i bobl ifanc a gwirfoddolwyr a darparu'r gefnogaeth bwrpasol i'w galluogi i allu symud ymlaen yn llwyddiannus.

Prif ddiben y swydd hon yw cynorthwyo a chydlynu darpariaeth hyfforddiant ar draws prosiectau GISDA ac yn allanol ac i greu prosbectws anffurfiol ond proffesiynol o'r holl ddarpariaeth sydd ar gael. Bydd angen gweithredu fel prif bwynt cyswllt i hyfforddiant gwirfoddolwyr y cwmni.

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Yn gyfrifol am ddatblygu hyfforddiant i'r gwirfoddolwyr o fewn busnesau cymdeithasol o fewn GISDA.
- Yn gyfrifol o ddarparu pecynnau hyfforddiant i'r busnesau cymdeithasol allu gwerthu a hyrwyddo yn allanol.
- Yn gyfrifol am gwblhau hyfforddiant ac achrediadau addas ar gyfer y cyrsiau sydd yn rhedeg.
- Cynorthwyo'r Cydlynydd Gwirfoddoli i gefnogi'r gwirfoddolwyr yn ddyddiol ac i ddatblygu eu llwybr datblygiad.

- I fod yn gyfrifol am gydlynu gwirfoddolwyr a datblygu eu llwybr personol yn absenoldeb y cydlynydd gwirfoddoli
- Creu posteri a deunydd marchnata i hyrwyddo unrhyw sesiynau hyfforddi etc.
- Cynorthwyo'r Cydlynydd Gwirfoddoli i edrych am rolau newydd o fewn y cwmni
- Cydweithio gyda cyflogwyr allanol er mwyn gwneud cysylltiadau i symud pobl ifanc a gwirfoddolwyr ymlaen
- Cydweithio yn agos gyda'r ddau Swyddog Prosiect Cynhwysiant Gweithredol.
- Cyflwyno achrediadau Agored Cymru, cofrestru unigolion a dilyn y broses.
- Gallu i weithio oriau anghymdeithasol, nosweithiau a phenwythnosau i weithio yn hyblyg o amgylch y gwirfoddolwyr
- Sicrhau gwasanaeth cwsmer o'r safon uchaf.
- Marchnata'r prosiect a'r wefannau cymdeithasol
- Creu adroddiadau chwarterol
- Edrych am ffyrdd i ddatblygu'r gwasanaeth gyda'r Arweinydd Symud Ymlaen
- Edrych mewn i becynnu a costio hyfforddiant a cydlynu'r gwaith ynghyd a'r rheolwr Arweinydd Symud Ymlaen i geisio cael arian i mewn
- Ymgyfarwyddo gyda rhaglenni addysg amgen a hyfforddiant eraill GISDA megis Adtrac, OPUS, Cynhwysiant Gweithredol, DWP, Nominet a gweithgaredd gwirfoddoli.
- Bod ar gael i ddarparu hyfforddiant dan raglenni eraill megis Adtrac, OPUS, Cynhwysiant Gweithredol a gwirfoddolwyr busnesau cymdeithasol GISDA.
- Trefnu sesiynau blasu gyda gwirfoddolwyr a pobl ifanc.
- Hyrwyddo'r gwasanaeth drwy amryw o wahanol ffyrdd
- Cadw ystadegau a cofnodi holl hyfforddiant a manylion gwirfoddolwyr a gwerthuso a monitro ansawdd y gwasanaeth
- I weithio o fewn fframwaith PIE, yn unol a model therapiwtig GISDA.
- Staff i gael dealltwriaeth o drawma, ymlyniad a anhwylder personoliaeth.
- I adeiladu perthynas gref, iach ,a chyfeillgar gyda pobl ifanc gan roi y cyfle iddynt ymgysylltu/ a mynegi ei hunain mewn awyrgylch ffurfiol ac anffurfiol.
- I greu awyrgylch di sefydliad, saff a chroesawgar sydd yn rhoi y cyfle i bobl ifanc drafod a mynegi ei teimladau /pryderon.
- I hyrwyddo ac annog pobl ifanc i ofalu am lles ei hunain a bod yn fwy annibynnol.
- I annog, ysgogi a credu mewn pobl ifanc .
- Ymddwyn fel rôl model i bobl ifanc gan ddangos ffyrdd 'pro social' o ddelio a phroblemau.
- Sefydlu perthnasau positif gyda pobl ifanc a chynnig agwedd gadarnhaol ddiamod.

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- Cyfrannu tuag at eich datblygiad personol a hyfforddiant
- Cyfrannu tuag at sesiynau goruchwylio a gwerthusiad blynyddol.
- Hyrwyddo dulliau cyfeillgar, gan beidio barnu na gwahaniaethu ym mhob agwedd o'r gwaith tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth, cydweithiwr, Bwrdd Rheoli a'r cyhoedd/mudiadau eraill.

- Hyrwyddo gwerthoedd a diwylliant mewnol GISDA
- Hyrwyddo'r Ganolfan Hyfforddiant a gwerthoedd ac amcanion GISDA
- Cefnogi a gweithio gyda gwirfoddolwyr GISDA
- Sicrhau ein bod yn cadw at bolisïau a gweithdrefnau cyfredol GISDA
- Cadw at brotocol Amddiffyn Plant GISDA
- Cadw pob gwybodaeth am staff a defnyddwyr gwasanaeth yn gyfrinachol, yn unol â deddf diogelu data a pholisi cyfrinachedd y cwmni.
- Cynnal pob dyletswydd/cyfrifoldeb a chadw at gòd ymarfer Cyngor Gofal Cymru.
- Gwneud unrhyw ddyletswydd resymol pan yn ofynnol.

Tynnir eich sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd iawn, mewn rhai achosion, i ddiffinio'n fanwl beth yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol ac mae'n bosib y byddant yn amrywio o bryd i'w gilydd ond heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldebau.

Disgwylir i bob aelod o staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau; pan fo raid iddynt newid y tu fewn i'r gyfundrefn er mwyn cwrdd â gofynion ac anghenion y gwasanaeth.

MANYLION PERSON

Swyddog Hyfforddiant Tim Symud Ymlaen

HANFODOL
Cymhwyster mewn maes perthnasol e.e. addysg, hyfforddiant, gwaith ieuenctid.
Profiad o weithio gyda phobl ifanc bregus
Profiad o ddatblygu prosiect
Profiad o greu hyfforddiant / datblygu
Trefnus
Profiad o cynnal sesiynau hyfforddi i bobl ifanc/gwirfoddolwyr
Parodrwydd i weithio oriau hyblyg
Sgiliau gweinyddu
Sgiliau
Y gallu i weithio gyda'r cyhoedd a darparu gwasanaeth cwsmer o safon uchel
Y gallu i gyfathrebu yn effeithio mewn amrywiol sefyllfaoedd a gallu i ymdopi yn effeithiol gyda chwynion
Gweihtio mewn grwpiau a sgiliau hwyluso
Defnyddio meddalwedd fel Word, Excel, Outlook a Power Point

Y gallu i greu cysylltiadau gyda mudiadau allanol
Y gallu i gynrychioli'r cwmni
Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg a Saesneg (yn llafar ac yn ysgrifenedig)
Amyneddgar
Rheoli Amser
Y gallu weithio yn annibynnol ac fel rhan o dîm
DYMUNOL
Profiadau
Siarad yn gyhoeddus ar rai achosion i hyrwyddo'r gwasanaeth
Gallu i werthu'r gwasanaeth i amrywiol gynulleidfaoedd
Hyrwyddo, marchnata a datblygu gwasanaeth
Datblygu a monitro systemau a phrosiectau
Sgiliau
Ymchwilio i gadw fyny gyda deddfwriaeth neu unrhyw weithdrefnau newydd
Rheoli Cyllideb